Arwyddion a Hysbysiadau

Geiriau allweddol	
For the attention of	I sylw
Information signs	Arwyddion gwybodaeth
Message(s)	Negeseuon
Notice(s)	Hysbysiad(au)
Noticeboard	Hysbysfwrdd
Please Note	Dalier Sylw
Sign(s)	Arwydd(ion)
Warning(s)	Rhybudd(ion)

Hysbysiadau adrannol	
Departmental Office	Swyddfa'r Adran
Departmental Office Opening Hours	Oriau Agor Swyddfa'r Adran
Examinations Timetable	Amserlen Arholiadau
Level *1/2/3* Students	Myfyrwyr Lefel *1/2/3*
Notices *Staff / Students / Undergraduates / Postgraduates*	Hysbysiadau *Staff / Myfyrwyr Israddedigion / Uwchraddedigion*
Semester 1/2 Timetable	Amserlen Semester 1/2
Staff Noticeboard	Hysbysfwrdd Staff
Staff Pigeon Holes	Blychau Post Staff
Student Noticeboard	Hysbysfwrdd Myfyrwyr
Student Pigeon Holes	Blychau Post Myfyrwyr

Due to illness, *Professor*/*Dr* Smith will not be lecturing today.	Oherwydd salwch, ni fydd *Yr Athro*/*Dr* Smith yn darlithio heddiw.
Essays for module ******* are now ready for collection.	Mae traethodau ar gyfer y modiwl ******* bellach yn barod i'w casglu.
Please check noticeboard for details.	Gweler yr hysbysfwrdd am fanylion.
Professor/Dr Smith will be lecturing today at 2.10 p.m.	Bydd *Yr Athro/Dr* Smith yn darlithio heddiw am 2.10 o'r gloch.
This building will *open/close* at 8 a.m. / 10 p.m.	Bydd yr adeilad hwn yn *agor/cau* am 8 y bore / 10 yr hwyr.
The Departmental Office will *open/close* at 9 a.m. / 3 p.m. today.	Bydd Swyddfa'r Adran yn *agor/cau* am 9 o'r gloch / 3 o'r gloch heddiw.
The Departmental Office will be closed today due to staff training.	Bydd Swyddfa'r Adran ar gau heddiw oherwydd hyfforddiant staff.
The Departmental Office will be closed between 1 and 2.	Bydd Swyddfa'r Adran ar gau rhwng 1 a 2.
The *lecture/seminar/tutorial* will not be held in this room.	Ni chynhelir y *ddarlith/seminar/tiwtorial* yn yr ystafell hon.
The research seminar will be held in Room 12.	Cynhelir y seminar ymchwil yn Ystafell 12.
Would students please return forms to the Departmental Office?	A fyddai myfyrwyr cystal â dychwelyd ffurflenni i Swyddfa'r Adran?
Would students please check their departmental pigeon holes regularly?	A fyddai myfyrwyr cystal ag edrych yn eu blychau post adrannol yn rheolaidd?

Hysbysiadau Gwybodaeth	
Closed	Ar gau
Danger	Perygl
Danger: Construction work in progress	Perygl: Gwaith adeiladu

Examinations	Arholiadau
Fire Notice	Rhybudd Tân
Health and Safety Notices	Hysbysiadau Iechyd a Diogelwch
Keep Shut	Cadwch ar gau
Mind the step	Gwyliwch y step
No drinks allowed in the lecture rooms	Ni chaniateir diodydd yn yr ystafelloedd darlithio
No entry	Dim mynediad
No mobile phones	Dim ffonau symudol
No Smoking	Dim Ysmygu
Official Notices	Hysbysiadau swyddogol
Open	Ar agor
Please knock and enter	Curwch a dewch i mewn
Private	Preifat
Silence	Tawelwch
Silence: Examinations in progress	Tawelwch: Arholiadau
Silence: Lecture in progress	Tawelwch: Darlith
Staff only	Staff yn unig
Wet Paint	Paent Gwlyb

- Dylai pob arwydd sefydliadol mewn unrhyw ffurf, fod yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg uwchben, neu i'r chwith, i'r Saesneg.
- Eithriadau i'r uchod yw enwau rhai canolfannau neu adeiladau sydd ag enwau Cymraeg yn unig (e.e. Neuadd Pantycelyn, Pentre Jane Morgan, Brynamlwg) ac nad oes cyfieithad iddynt.
- Swyddfa'r Ystadau sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r arwyddion dwyieithog hyn a byddant yn trefnu iddynt gael eu cyfieithu.
- Gydag arwyddion gwybodaeth ac iechyd a diogelwch (e.e. Dim ysmygu, Dim ffonau symudol, Perygl, Dim Mynediad ayyb.), anogir defnyddio delweddau heb iaith. Fel arall, dylid eu cynhyrchu yn ddwyieithog.
- Dylai hysbysiadau cyffredinol gan y weinyddiaeth, gwasnaethau canolog, ac adrannau academaidd sydd i'w harddangos am gyfnod o dair wythnos neu fwy, fod yn ddwyieithog.
- Bydd y hysbysiadau hyn yn cael eu harddangos yr un pryd ac yn cael yr un amlygrwydd.
- Lle bo iaith hefyd yn bwnc academaidd, gall yr Adran berthnasol gynhyrchu ac arddangos hysbysiadau yn yr iaith honno yn unig (e.e Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg).

Gweler Cynllun Iaith Gymraeg: 4.7 (Arwyddion Gwybodaeth) & 4.12 (Hysbysiadau)

- Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ar est. 2045 neu *cyfieithu@aber.ac.uk* am gyfeithiadau pellach a chyngor.